Crynodeb

Adolygiad gwybodaeth 7: Gwella'r defnydd o waith ymchwil mewn ymarfer gwaith cymdeithasol

'BC

social care institute for excellence

scie

Mehefin 2004

Beth yw diben yr adolygiad gwybodaeth hwn?

Mae'r Sefydliad dros Ragoriaeth Gofal Cymdeithasol (SCIE) wedi ymrwymo i ddatblygu a hyrwyddo gwybodaeth ar sail ymchwil ynghylch arferion da mewn gofal cymdeithasol. Mae deall sut y defnyddir gwaith ymchwil, a sut i'w ddefnyddio'n well, yn hanfodol i'n gwaith ni ac i waith sefydliadau eraill. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y modd y defnyddir gwaith ymchwil yn y maes gofal cymdeithasol ac yn edrych ar fodelau defnyddio ymchwil sy'n cynnwys staff ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'n edrych ar y trefniadau strwythurol sydd eu hangen i sicrhau y defnyddir ymchwil i wella ymarfer.

Ar gyfer pwy mae'r adolygiad gwybodaeth hwn?

Bydd yr adolygiad hwn o fudd i sefydliadau sy'n cynnal neu'n adolygu tystiolaeth gwaith ymchwil fel y gallant gyflwyno ymchwil mewn modd defnyddiol i'r defnyddwyr. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i ddarparwyr gofal cymdeithasol i'w helpu i ddeall sut gallai staff eu sefydliad ddefnyddio gwaith ymchwil yn well.

Sut y cynhaliwyd yr adolygiad?

Cynhaliwyd yr adolygiad drwy ddadansoddi llenyddiaeth yn systematig, gyda chymorth gwaith maes oedd yn cynnwys seminarau a chyfweliadau. Nod yr adolygiad oedd edrych ar y modd mae lleoliadau gofal cymdeithasol amrywiol ledled y DU yn defnyddio gwaith ymchwil. Nid oedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar weithlu â chymwysterau proffesiynol yn unig – yn hytrach, roedd yn cynnwys pob math o swyddi, yn cynnwys gofal cartref a phreswyl i bobl hŷn, cymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd, a chymorth i bobl ag anableddau corfforol, anawsterau dysgu a phroblemau iechyd meddwl.

Crynodeb o'r adolygiad

Cyflwyniad

Mae angen gwneud defnydd mwy helaeth o waith ymchwil fel dull allweddol o wella ymarfer. Fodd bynnag, cymharol ddibwrpas yw rhoi mwy o waith ymchwil i'r gweithlu gofal

cymdeithasol: prin yw'r gwaith ymchwil y gellir ei gymhwyso'n uniongyrchol i ymarfer, nid yw llawer o'r ymarferwyr yn ddigon cymwys i allu defnyddio gwaith ymchwil, ac mae'r systemau cymorth priodol yn brin. Mae angen deall y berthynas rhwng gwaith ymchwil gofal cymdeithasol a gwaith yr ymarferwyr gofal cymdeithasol yn well, gan gynnwys pa strwythurau sefydliadol sydd eu hangen i wireddu'r nod o ddefnyddio gwaith ymchwil i wella ymarfer.

Nod yr adolygiad

Nod yr adolygiad oedd:

- archwilio sut mae'r maes gofal cymdeithasol yn defnyddio gwaith ymchwil;
- adolygu'r dystiolaeth ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r dulliau gwahanol o hyrwyddo defnyddio gwaith ymchwil mewn gofal cymdeithasol;
- ystyried modelau defnyddio ymchwil sy'n gallu cynnwys staff ar bob lefel ac ym mhob sefyllfa yn y maes gofal cymdeithasol;
- rhoi gorolwg o'r modelau dysgu a rheoli adnoddau dynol sy'n gymorth i ddefnyddio gwaith ymchwil;
- dadansoddi tueddiadau'r dyfodol o ran ymchwil a datblygu mewn perthynas â defnyddio gwaith ymchwil a newid ymarfer mewn gofal cymdeithasol.

Prif gasgliadau

Roedd y gwaith ymchwil yn nodi'r holl ddulliau gwahanol o gymhwyso gwaith ymchwil - o'i ddefnyddio i ddatblygu polisi ac ymarfer i ddefnyddio ymchwil i gael gwybodaeth a syniadau newydd. Mae rhywfaint o unigolion sy'n ymwybodol o waith ymchwil i'w cael ar unrhyw lefel mewn sefydliad; er mae'n ymddangos nad yw gwaith ymchwil yn cael ei ddefnyddio gymaint yn y sector gofal annibynnol. Fodd bynnag, da o beth oedd gweld tystiolaeth ym mhob rhan o'r sector fod ymchwil yn cael ei ystyried yn bwysig er mwyn gwella ymarfer gofal cymdeithasol.

Roedd y gwaith ymchwil yn bwrw golwg ar y modd mae pobl yn defnyddio ymchwil nawr, gan nodi tair ffordd wahanol o ddatblygu'r ffordd y defnyddir ymchwil ym maes gofal cymdeithasol. Efallai bod y modelau gwahanol yn fwy perthnasol i garfanau gwahanol o'r gweithlu gofal cymdeithasol – gyda phob un mewn cyfnodau gwahanol o ran datblygu mentrau defnyddio gwaith ymchwil ac ar gyfer mathau gwahanol o ymchwil. Nid ydynt yn annibynnol ar ei gilydd, a gallai menter ddefnyddio mwy nag un model mewn cyfnodau gwahanol.

Y model ymarferwr ar sail ymchwil

Yn y model yma, mae'r unigolyn wedi ymrwymo i ddefnyddio gwaith ymchwil. Mae unigolion yn credu mai eu swyddogaeth a'u cyfrifoldeb nhw yw dilyn y gwaith ymchwil diweddaraf, a'i roi ar waith. Maent yn credu bod addysg a hyfforddiant proffesiynol yn bwysig i ddefnyddio gwaith ymchwil, ac er mwyn cymhwyso'r casgliadau i'w gwaith.

Mae canlyniadau'r adolygiad yn awgrymu bod nifer o rwystrau wrth ddatblygu'r model hwn, gan gynnwys gallu'r unigolion i gyrchu a dehongli'r gwaith ymchwil.

Y model gwaith ymchwil sefydliadol

Yn y model yma, cyfrifoldeb gwneuthurwyr polisi a rheolwyr cyflwyno gwasanaethau yw sicrhau bod gwaith ymchwil yn llywio ymarfer. Mae sefydliadau'n cynnwys gwaith ymchwil fel rhan o systemau a phrosesau gofal cymdeithasol, megis safonau, polisïau a gweithdrefnau a dulliau. Mae rheolwyr yn defnyddio cyfyngiadau cyllido, rheoli perfformiad a threfniadau archwilio a gwerthuso i annog eraill i ddefnyddio gwaith ymchwil mewn ymarfer.

Er bod rhywfaint o dystiolaeth bod pobl yn defnyddio'r model hwn, ar y cyfan nid yw wedi ei ddatblygu'n ddigonol yn sector gofal cymdeithasol y DU.

Y model sefydliad er rhagoriaeth

Mae'r model hwn yn dibynnu ar sefydliadau sy'n darparu gofal cymdeithasol i ddatblygu meddylfryd gwaith ymchwil. Maent yn creu partneriaethau â phrifysgolion lleol ac yn addasu casgliadau ymchwil yn ôl sefyllfaoedd lleol ac yn annog sefydliadau i ddysgu'n barhaus.

Nododd yr adolygiad bod aelodau o'r gweithlu gofal cymdeithasol o blaid y model hwn, ond nad oedd fawr o dystiolaeth o'i effeithiolrwydd mewn ymarfer.

Casgliadau

Daeth pedwar casgliad allweddol i'r amlwg yn sgil yr adolygiad:

- Mae cryn weithgarwch o ran hybu defnyddio gwaith ymchwil mewn gofal cymdeithasol, ond mae angen cydgysylltu hyn i osgoi ailadrodd ac er mwyn rhannu arferion gorau.
- Oherwydd bod y sector gofal cymdeithasol mor amrywiol – o ran y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaeth, grwpiau cleient a'r gweithlu – mae angen defnyddio camau gweithredu amrywiol i hybu'r defnydd o waith ymchwil. Mae angen i'r camau hyn ystyried dulliau gweithio amlasiantaeth ac amlddisgyblaeth.
- Prin yw'r dystiolaeth gadarn sydd ar gael o ran beth sy'n llwyddiannus wrth hybu defnyddio gwaith ymchwil mewn gofal cymdeithasol, ac mae'n dueddol o ganolbwyntio ar y gweithlu â chymwysterau proffesiynol.
- Un ffordd gadarnhaol ymlaen fyddai defnyddio dull systemau cyfan, lle mae sefydliadau ac unigolion yn cydweithio i ddefnyddio gwaith ymchwil.

Gwaith yn y dyfodol

Mae SCIE yn paratoi cyfres o adroddiadau ac adolygiadau ynghylch sut mae gwybodaeth yn gweithio mewn gofal cymdeithasol. Dyma'r adolygiad cyntaf i archwilio'r modd mae'r gweithlu gofal cymdeithasol yn defnyddio gwaith ymchwil. Mae adolygiad gwybodaeth 3 SCIE: *Mathau ac ansawdd gwybodaeth mewn gofal cymdeithasol*, sy'n trafod beth yw ystyr tystiolaeth a gwybodaeth mewn gofal cymdeithasol – yn sylfaen i'r rhaglen waith hon.

Beth yw SCIE?

Gwaith SCIE yw hybu arferion gorau mewn gofal cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda phobl a sefydliadau ledled y sector gofal cymdeithasol i nodi gwybodaeth ac ymchwil ddefnyddiol, ac enghreifftiau o arferion da. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, rydym yn paratoi cyhoeddiadau ar bapur ac ar y we am ddim, sy'n crynhoi'r holl wybodaeth am faes gofal cymdeithasol arbennig, gan bwysleisio'r prif negeseuon ar gyfer arferion da, a nodi'r meysydd hynny sydd angen rhagor o waith ymchwil i lywio arferion da. Felly, mae pobl yn gallu defnyddio cyhoeddiadau SCIE fel prif gyfrwng gwybodaeth ar sail tystiolaeth.

Mae gwaith SCIE yn cwmpasu'r maes gofal cymdeithasol drwyddo draw, o faethu a mabwysiadu, i addysg gwaith cymdeithasol, iechyd meddwl i ddatblygu adnoddau dynol. Mae gennym ni hefyd lyfrgell helaeth ar-lein o adnoddau gofal cymdeithasol.

Cynhaliwyd yr adolygiad gan: Isabel Walter a Sandra Nutley, Research Unit for Research Utilisation, Centre for Public Policy and Management, Prifysgol St Andrews, Janie Percy-Smith, ymchwilydd llawrydd, Di McNeish, Barnardo's a Sarah Frost, 'What Works for Children?'/Barnardo's.

Social Care Institute for Excellence
Goldings House
2 Hay's Lane
Llundain SE1 2HB
Ffôn 020 7089 6840
Ffacs 020 7089 6841
Ffôn testun 020 7089 6893
www.scie.org.uk

Bydd fersiwn braille, ar dâp ac argraffiadau print bras ar gael ar gais.

Mae fersiwn lawn o'r Adolygiad Gwybodaeth ar gael ar wefan SCIE ac mewn print oddi wrth SCIE.